# **Graddedigion dan Hyfforddiant** – Pecyn Gwybodaeth

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 2073A2020-21

## Croeso gan Ann-Marie Harkin, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio



**Ann Marie Harkin, Cyfarwyddwraig**

Croeso/Welcome

Oes gennych chi'r angerdd, yr egni a'r ymrwymiad i wella bywydau pobl Cymru? Os felly, hwyrach mai gyrfa yn cael hyfforddiant fel cyfrifydd siartredig yn Archwilio Cymru, corff gwarchod y sector cyhoeddus yng Nghymru, sydd eisiau arnoch!

Byddwch yn dilyn rhaglen pedair blynedd benodol o hyfforddiant i raddedigion i gael eich hyfforddi i fod yn gyfrifydd siartredig gan ddilyn y Sefydliad Cyfrifyddion Siartredig yng Nghymru a Lloegr (ICAEW). Byddwch yn gweithio gyda'n timau ledled Cymru i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau archwilio ac yn helpu i graffu ar wasanaethau cyhoeddus a'u gwella.

## Am bwy rydyn ni'n chwilio

Mae gennym ddiddordeb gwirioneddol mewn gwybod pwy ydych chi, beth yw eich cryfderau a'ch potensial.

Beth bynnag yw disgyblaeth eu gradd, rydym yn chwilio am unigolion gyda chefndir academaidd da iawn sydd wedi ymrwymo i wella gwasanaethau sector cyhoeddus ac yn ystyried eu hunain yn arweinwyr y dyfodol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Byddwch angen:

- Gradd dosbarth 2:1 mewn unrhyw ddisgyblaeth neu 2:2 lle mae gennych gymwysterau ychwanegol fel gradd meistr
- Canlyniadau academaidd da iawn ar lefel Safon Uwch neu academaidd gyfatebol
- TGAU Saesneg iaith lefel 4 os cyn 2017 neu C os wedi hynny
- TGAU Mathemateg lefel 5 os cyn 2017 neu B os wedi hynny

Os ydych yn naturiol yn hoffi holi, yn mwynhau gwaith tîm, yn diddori mewn gwasanaethau cyhoeddus  ac yn dymuno hyfforddi i fod yn gyfrifydd, yna un o'n swyddi i raddedigion yw'r un i chi.

Mae rhagor o wybodaeth am y sgiliau a'r galluoedd sy'n angenrheidiol ar gyfer y swydd i'w chael yn y disgrifiad swydd.

## Pecyn astudio

Rydym yn darparu cefnogaeth ariannol lawn ar gyfer eich hyfforddiant i ennill aelodaeth o'r Sefydliad Cyfrifyddion Siartredig yng Nghymru a Lloegr (ICAEW). Mae'r gefnogaeth honno'n cynnwys – tanysgrifiad aelodaeth, dysgu/adolygu, defnydd astudio, mynediad i arholiadau a chostau teithio lle mae hynny'n gymwys.

## Rhwydwaith o gefnogaeth

Yn ogystal â chefnogaeth eich cydweithwyr, byddwch yn cael:

- rheolwr llinell a fydd nid yn unig yn rhoi cefnogaeth gyffredinol ac arweiniad ichi, ond bydd hefyd yn gynghorydd astudiaethau proffesiynol gyda swyddogaeth hanfodol i'ch datblygu a'ch cefnogi drwy gydol eich astudiaethau proffesiynol;
- cyfaill i'ch helpu i ddod yn gyfarwydd â'ch swyddogaeth newydd yn ogystal â darparu cefnogaeth anffurfiol barhaus, eich cyflwyno i rwydwaith cymdeithasol a bod yn fan cychwyn ar gyfer ymholiadau cyffredinol; a
- chewch gefnogaeth, anogaeth a chyfleoedd i dyfu. Byddwch yn ymuno â phobl sydd mor frwd dros eich datblygiad ag ydych chi, a llawn mor awyddus i'ch gweld yn gwneud yn dda.

## Eich swyddogaeth

Byddwch yn cymryd rhan yn yr archwiliad o dros 800 o gyrff cyhoeddus ledled Cymru, gan sicrhau bod y gwaith a wnewch yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ddinasyddion Cymru. Byddwch hefyd yn dysgu sut i sefydlu a chynnal perthynas waith dda yn fewnol ac yn allanol, wrth astudio ar gyfer eich cymhwyster cyfrifeg a chael eich cefnogi mewn rhaglen dysgu a datblygu lawn.

Mae pob elfen o archwiliad yn cyfrannu at y darlun mawr ac mae eich gwaith o ddydd i ddydd ar ein rhaglen i raddedigion yn chwarae rhan allweddol yn hynny.

Mae eich gyrfa fel archwilydd yn dechrau cyn gynted ag y byddwch yn ymuno â ni. Ochr yn ochr â'r hyfforddiant cymhwyster proffesiynol, byddwch yn ymuno â thimau archwilio ac yn cael profiad ymarferol gyda'n cleientiaid, gan weithio gyda nhw naill ai o'u swyddfeydd neu ar-lein, naill ai o gartref neu o un o'n swyddfeydd. Bydd angen i chi fod yn berson afaelgar a gwydn.

Byddwch yn cyflawni amrywiaeth o waith cyfrifon ariannol i wirio bod data'n gywir ac yn amlygu a chwestiynu unrhyw anghywirdebau drwy gyswllt rheolaidd â thimau Cyllid a gweithwyr proffesiynol eraill.

Mae ein rhaglen hyfforddi yn rhoi cyfle i chi weithio ar draws ystod eang o gleientiaid, gan gynnwys:

- Llywodraeth Cymru a chyrff cysylltiedig a noddir
- Byrddau iechyd
- Awdurdodau lleol
- Gwasanaeth Tân ac Achub

Byddwch hefyd yn ymwneud â gwaith ardystio grantiau, dadansoddeg data, llywodraethu a gwaith gwerth am arian.

Er bod ein sylfaen cleientiaid ledled Cymru, mae ein staff wedi'u lleoli mewn ardaloedd daearyddol (y De, Gogledd, a'r Gorllewin) a disgwylir iddynt deithio i wahanol swyddfeydd cleientiaid ledled yr ardal ddaearyddol hon. Mae'n werth nodi, oherwydd y lledaeniad daearyddol hwn, efallai y bydd yn fuddiol i chi allu gyrru, gan wneud teithio rhwng cleientiaid yn fwy hygyrch. Fodd bynnag, os na allwch yrru neu os na allwch yrru oherwydd nam, byddwch yn cael ad-daliad am drefniadau teithio amgen.

Byddwch hefyd yn dysgu sut i greu a chynnal perthynas weithio dda yn fewnol ac yn allanol. Byddwch yn gwneud hyn ynghyd ag astudio ar gyfer eich cymhwyster mewn cyfrifeg, ac yn cael eich cefnogi mewn rhaglen lawn o ddysgu a datblygu, sy'n dod i ben drwy gyrraedd ILM lefel 3.

Yn ogystal â hyn, cewch gyfle i elwa o secondiad o fewn corff arall yn y sector cyhoeddus lle byddwch yn gallu ennill gwybodaeth uniongyrchol ehangach a phrofiad o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan fod yn gymwys i ennill lefel 3 gan y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Ffordd wych i godi i swydd uwch yn eich gyrfa.

Er nad oes sicrwydd y bydd swydd barhaol ar ddiwedd y rhaglen pedair blynedd, bydd Archwilio Cymru yn darparu cefnogaeth a chyfleoedd ar draws y sector cyhoeddus ehangach i gefnogi eich cyfleoedd gyrfa. Hyd yn hyn mae ein graddedigion dan hyfforddiant i gyd wedi cael swyddi parhaol mewn amrywiaeth eang o sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat ar ddiwedd eu contractau hyfforddi.

## Pwy ydyn ni

Rydyn ni'n sefydliad sy'n ymestyn ar draws yr holl sector cyhoeddus yng Nghymru, yn ymchwilio i wariant cyhoeddus o tua £19 biliwn bob blwyddyn. Rydym yn ei wneud ar ran pobl Cymru ac yn nodi ffyrdd o wella gwasanaethau cyhoeddus. Mae ein gwaith yn cefnogi craffu effeithiol ar arian cyhoeddus gan y Senedd a chynrychiolwyr a etholwyd yn lleol, ac rydym yn gwbl annibynnol o'r llywodraeth. Ein diben yw:

- **Rhoi sicrwydd** i bobl Cymru fod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda

- **Egluro** sut mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i fodloni anghenion pobl
- **Ysbrydoli** a **grymuso** sector cyhoeddus Cymru i wella.

Gallwch weld rhagor am ein trefniadaeth a'n gwaith ar gyfer y dyfodol yn ein fideo a hefyd yn ein Cynllun Blynyddol.

Mae Archwilio Cymru yn lle hwyliog a chyfeillgar i weithio, gyda diwylliant cefnogol tu hwnt lle rydym yn gweithio'n galed i ymgorffori ein gwerthoedd a'n ymddygiad ym mhopeth a wnawn a'r ffordd rydym yn ei wneud.

Rydym yn croesawu amrywiaeth ym mhob ffurf ac felly rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob cefndir sydd â nifer o wahanol sgiliau, profiadau a safbwyntiau. Dyma sy'n ein helpu i greu lle gwych i weithio a gwneud GWIR gwahaniaeth drwy'r gwaith a wnawn ledled Cymru.

Rydyn ni eisiau cryfhau amrywiaeth ein gweithlu, yn enwedig o ran pobl dduon, pobl Asiaidd, neu o leiafrifoedd ethnig eraill, pobl ag anableddau, pobl sy'n ofalwyr a phobl LGBT+. Cewch wybod rhagor am ein safbwynt ar amrywiaeth a chynhwysiant ar ein gwefan.

Mae o leiaf tair o'n swyddi i raddedigion yn rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, ond nid yw hynny'n ofynnol ar
gyfer pob swydd arall. Bydd digon o gyfleoedd ichi ddysgu Cymraeg os oes gennych ddiddordeb. Caiff y penodiadau i gyd eu gwneud yn unol â'r manylion person
yn y pecyn hwn.

Rydyn ni wedi ymrwymo i weithio'n glyfrach, mae gennym y dechnoleg i'n cefnogi, rydyn ni'n adeiladu ein sgiliau hyfforddi, yn grymuso ac yn ysbrydoli ein gilydd, ac yn buddsoddi'n drwm mewn dysgu a datblygiad parhaus.

## Y manteision i chi

Rydyn ni'n ymfalchïo yn y tâl a'r buddiannau a gynigiwn. Gallwch ddisgwyl hyn:

- Cyflog cychwynnol cystadleuol £25,300
- Hyfforddiant cyfrifyddiaeth wedi'i dalu'n llawn gyda Sefydliad Cyfrifwyr Cymru a Lloegr (ICAEW)
- Hyfforddiant cyfrifyddiaeth o'r safon uchaf gyda darparwr allanol, a chyfraddau llwyddo mewn arholiadau sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol
- Hyfforddiant a gyflwynir drwy raglen astudio rhyddhau o'r gwaith mewn bloc
- Absenoldeb arholiadau wedi'i ariannu'n llawn
- 33 diwrnod o wyliau blynyddol (ynghyd â gwyliau cyhoeddus)
- Mynediad i Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil
- Gweithio hyblyg gyda chymysgedd o waith cartref a swyddfa

Edrychwch ar dudalennau gwe recriwtio graddedigion i gael rhagor o fanylion am y manteision sydd ar gael.

Os yw'r cyfle hwn yn eich ysgogi ac os oes gennych y sgiliau iawn, yr agwedd a'r ysgogiad, hoffem glywed gennych. Ffoniwch fy nghydweithiwr Morgan Vaughan ar 02920 320519, os hoffech gael sgwrs gyda ni cyn gwneud cais.

Dymuniadau gorau,

**Ann-Marie**

## Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd** | Archwilydd Graddedigion dan Hyfforddiant |
| **Yn adrodd i** | Rheolwr Archwilio |
| **Lleoliad** | Cymru |
| **Band tâl** | Dan hyfforddiant |
| **Symudol** | Ydy |
| **Yn gymwys i gael Lwfans Teithio** | Ydy |

**Disgrifiad swydd**

**Diben y swydd**

- Byddwch yn gweithio fel rhan o dîm cefnogi, ac yn cymryd rhan yng ngwaith archwilio allanol amrywiaeth o gyrff yn sector cyhoeddus Cymru, gan gynnwys llywodraeth leol, cyrff y GIG, a Llywodraeth Cymru a'i sefydliadau cysylltiedig.
- Byddwch hefyd yn cael eich hyfforddi i ennill cymhwyster y Sefydliad Cyfrifyddion Siartredig yng Nghymru a Lloegr (ICAEW).

**Prif Ddyletswyddau**

- Cwblhau'r cymhwyster ICAEW yn llwyddiannus.
- Cwblhau'r cymhwyster ILM yn llwyddiannus.
- Helpu darparu archwiliad ariannol a gwaith gwerth yr arian mewn Cyrff a Archwilir yn unol â safonau Archwilio Cymru.

## Disgrifiad swydd

- Gweithio fel rhan o dîm i gwblhau neu gynorthwyo wrth gwblhau tasgau archwilio yn unol â gweithdrefnau wedi'u cytuno.
- Gweithio fel rhan o dîm prosiect sy'n cyfrannu at waith ymchwil a chasglu data a dadansoddi data.

## Prif Ddyletswyddau

- Dangos sgiliau llefaru a gwrando da wrth holi staff cleientiaid a gweithio o fewn ein tîm archwilio.
- Sicrhau dull trefnus wedi'i gynllunio'n dda wrth eich gwaith gyda chefnogaeth gan yr Archwilydd Arweiniol neu oruchwylydd priodol arall.
- Bod yn gyfrifol am eich datblygiad eich hun ac ymdrechu i wella'ch sgiliau a'ch gwybodaeth – trin tasgau newydd fel cyfle i ddefnyddio'r hyn rydych wedi'i ddysgu mewn amgylchedd newydd neu ddysgu gwybodaeth newydd.
- Unrhyw ddyletswyddau eraill yn gymesur â'r swydd, a all gynnwys gwaith gwerth yr arian.

## Meysydd Prif Ganlyniadau

- Darparu gweithgareddau archwilio gyda chefnogaeth yn brydlon, yn ôl y gyllideb a'r ansawdd.
- Cwblhau cymhwyster ICAEW yn llwyddiannus.
- Cwblhau hyfforddiant ILM yn llwyddiannus.
- Bod yn model rôl ar gyfer gwerthoedd ac ymddygiad Archwilio Cymru.

## Manylion Person

| Gofyniad | Hanfodol neu Ddymunol |
| --- | --- |
| **1. Cymwysterau** | |

| Manylion Person | | |
|---|---|---|
| 1.1 | Llwyddiant academaidd da iawn ar lefel Uwch neu gymhwyster cyfatebol. | Hanfodol |
| 1.2 | Lefel Gradd – o leiaf 2:1, heblaw pan fyddwch wedi ennill cymhwyster academaidd uwch. | Hanfodol |
| 1.3 | O leiaf 5 pwnc TGAU (Gradd A*-C), gan gynnwys Mathemateg gradd B neu uwch neu gymhwyster cyfatebol. | Hanfodol |

| Manylion Person | |
|---|---|
| **Gofyniad** | **Hanfodol neu Ddymunol** |
| **2. Sgiliau a galluoedd** | |
| 2.1 Sgiliau dadansoddi da a gallu dangos safbwynt proffesiynol cadarn. | Hanfodol |
| 2.2 Cael dealltwriaeth o ddiben a swyddogaeth y sector cyhoeddus yng Nghymru, yr heriau mae’n eu hwynebu ar hyn o bryd, a’r amgylchedd wleidyddol gysylltiedig. | Dymunol |
| 2.3 Sgiliau digidol, data a thechnoleg da, gyda pharodrwydd a gallu i ddysgu sgiliau a meddalwedd newydd, i gyfathrebu, cydweithio, creu, arloesi, trawsweithio a thrin data'n ddiogel | Dymunol |
| 2.4 Gallu gweld tasgau drwodd i’r diwedd yn llwyddiannus. | Dymunol |
| 2.5 Sgiliau llefaru ac ysgrifennu da – clir, cryno a sylw rhagorol i fanylion. | Hanfodol |
| 2.6 Gweithio’n effeithiol, yn frwdfrydig ac ymroi’n llwyr fel aelod o dîm. | Hanfodol |
| 2.7 Sgiliau effeithiol wrth reoli amser, yn enwedig gallu gweithio ar draws nifer o archwiliadau ar unrhyw un adeg. | Hanfodol |
| 2.8 Sgiliau holi a gwrando cadarn. | Hanfodol |

| Manylion Person | |
| --- | --- |
| 2.9 Gallu gweithio'n hyblyg a rheoli eich amser eich hun yn effeithiol i sicrhau cwblhau gwaith yn ôl safonau ac amserlenni priodol a osodir gan bobl eraill. | Dymunol |

| Manylion Person | |
|---|---|
| **Gofyniad** | **Hanfodol neu Ddymunol** |
| 2.10 Sgiliau rhyngbersonol da – gallu datblygu a gweithio’n effeithiol gydag eraill ar bob lefel. | Hanfodol |
| **3 Priodoleddau personol** | |
| 3.1 Diddordeb mewn dilyn gyrfa gyllid yn y sector cyhoeddus. | Hanfodol |
| 3.2 Brwdfrydig ac wedi eich ysgogi. | Hanfodol |
| 3.3 Yn dangos hunanymwybyddiaeth a pharodrwydd i ddysgu o brofiad, ac i ddysgu a defnyddio gwybodaeth a sgiliau newydd a pherthnasol yn barhaus. | Hanfodol |
| 3.4 Yn hyblyg a gallu addasu i flaenoriaethau/heriau sy’n newid. | Dymunol |
| 3.5 Gallu gweithredu ar eich liwt eich hun ond gan wybod pryd i ofyn am oruchwyliaeth ac arweiniad gan gydweithwyr. | Dymunol |
| 3.6 Hyderus wrth weithio gartref gan ddefnyddio TG i gyfathrebu â chydweithwyr ac eraill | Hanfodol |
| **4 Cyffredinol** | |
| 4.1 Bod yn hunanymwybodol ac yn batrwm rôl ar gyfer gwerthoedd ac ymddygiad Archwilio Cymru. | Hanfodol |
| 4.2 Gallu gweithio’n hyblyg, ac os bydd angen y tu allan i oriau arferol. | Dymunol |

| Manylion Person | |
|---|---|
| 4.3 Ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth ac ymrwymiad iddynt. | Hanfodol |
| 4.4 Ymwybyddiaeth o drefniadau ar gyfer iechyd a diogelwch ac ymrwymiad iddynt. | Hanfodol |

**Sgiliau yn y Gymraeg**

Rydym yn gwerthfawrogi pwysigrwydd y Gymraeg yn ein gwaith ac yn anelu at ddarparu gwasanaeth dwyieithog i bawb sy'n dymuno'i ddefnyddio. Felly, hoffem yn arbennig annog ceisiadau gan unigolion sydd â sgiliau yn y Gymraeg i'n helpu i gyrraedd y nod hwn.

Bydd pob disgrifiad swydd yn nodi a yw gallu siarad Cymraeg yn ofyniad hanfodol neu ddymunol. Os byddwch yn llwyddiannus ac os nad oes gennych sgiliau yn y Gymraeg ar hyn o bryd, gallwn eich cefnogi i ddysgu Cymraeg os dymunwch.

Mae'r sgiliau yn y Gymraeg dilynol yn ddymunol ar gyfer y swydd hon. Cyfeiriwch at ein matrics sgiliau iaith i gael disgrifiad o'r amrywiol lefelau sgiliau. Cysylltwch ag Archwilio Cymru os hoffech drafod natur y sgiliau Cymraeg.

| Maes sgil | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Siarad a Gwrando** | Cyfarch eraill ar y ffôn neu'n bersonol gyda chyfarchiad syml yn Gymraeg a chyfeirio galwad gyda sensitifrwydd at rywun sy'n siarad Cymraeg pan fydd yn briodol. | Gwrando ar gyfarfodydd cyfrwng Cymraeg, trafodaethau a galwadau ffôn ar faterion syml, ond gallu cyfrannu yn Saesneg ar gyfer materion mwy technegol a chymhleth. |
| **Darllen** | Defnyddio meddalwedd cyfieithu i gael syniad o ohebiaeth syml gan ddeall bod ei allu'n gyfyngedig. | Darllen eitemau newyddion Cymraeg, adroddiadau byrion a'r cyfryngau cymdeithasol i ddatblygu gwybodaeth mewn maes. |
| **Ysgrifennu** | Diweddaru dogfennau a gohebiaeth â dyddiadau<br>a thermau generig eraill yn Gymraeg. | Ysgrifennu gohebiaeth syml a chynnwys y cyfryngau cymdeithasol |

| | | |
|---|---|---|
| | | yn Gymraeg gyda chymorth gwiriwr sillafu a gramadeg Cymraeg. |

**Cyffredinol**

**Cyfrinachedd a Diogelwch Gwybodaeth**

Rhaid i ddeiliad y swydd fod yn ymwybodol bob amser o bwysigrwydd cynnal cyfrinachedd a diogelwch gwybodaeth a gafwyd yn ystod ei ddyletswyddau.
Mewn llawer achos bydd hyn yn cynnwys gallu cael gwybodaeth bersonol am ddefnyddwyr y gwasanaeth. Rhaid i ddeiliad y swydd drin pob gwybodaeth, boed am y gorfforaeth neu'r cleient, ar wahân ac yn gyfrinachol yn unol â darpariaethau Deddf Diogelu Data 1998
a pholisi'r sefydliad. Ystyrir bod torri cyfrinachedd felly yn drosedd ddisgyblaeth ddifrifol, a gall olygu diswyddo a/neu erlyn dan y
ddeddfwriaeth statudol gyfredol (Deddf Diogelu Data) a Pholisi Disgyblaeth Archwilio Cymru.

**Cydraddoldeb**

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru yn golygu bod dyletswydd gadarnhaol ar gyrff cyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb i bobl sydd â nodweddion a warchodir, fel cyfloger
ac fel darparwr gwasanaethau cyhoeddus. Mae yna naw nodwedd a warchodir: oed; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Archwilio Cymru wedi ymrwymo i sicrhau
na fydd unrhyw ymgeisydd am swydd neu weithiwr yn cael triniaeth lai ffafriol ar unrhyw un o'r seiliau hyn. I'r diben hwn, mae gan y sefydliad Bolisi Cydraddoldeb a dylai pob gweithiwr gyfrannu at ei lwyddiant.

**Iechyd a Diogelwch**

Mae gan bawb a gyflogir gan y sefydliad gyfrifoldeb statudol i ofalu am eu diogelwch personol a diogelwch pobl eraill y gall eu gweithredoedd neu eu methiannau effeithio arnynt. Mae'n ofynnol i ddeiliad y swydd gydweithredu â rheolwyr i alluogi'r sefydliad i fodloni ei ddyletswyddau cyfreithiol a rhoi gwybod am unrhyw sefyllfa beryglus neu gyfarpar diffygiol. Rhaid i ddeiliad y swydd gadw at bolisïau Rheoli Risg, Iechyd a Diogelwch a pholisïau cyswllt y sefydliad.

**Archwiliadau Diogelwch**

Mae pob gweithiwr yn agored i gael archwiliadau diogelwch sylfaenol fel rhan o'i archwiliad cyn cyflogi. Mae'r gwiriadau hyn yn cynnwys prawf adnabod a chymwysterau. Yn ogystal, mae pob aelod o staff symudol yn ddarostyngedig i drefniadau fetio diogelwch i lefel diogelwch CTC (gwiriad gwrth-derfysgol).

**Urddas yn y Gwaith**

Mae'r sefydliad yn condemnio pob math o fwlio ac aflonyddu ac mae wrthi'n ceisio hyrwyddo gweithle lle mae gweithwyr yn cael eu trin yn deg a chydag urddas a pharch heb ragfarn. Gofynnir i'r staff i gyd roi gwybod i'w Rheolwr Llinell am unrhyw fath o fwlio a phoenydio neu i unrhyw un o Gyfarwyddwyr y sefydliad. Ni fydd unrhyw fath o ymddygiad amhriodol yn y gweithle yn cael ei oddef a chaiff ei drin yn fater difrifol dan bolisi Archwilio Cymru ar Urddas yn y Gwaith.

## Sut i wneud cais

Rydym yn derbyn ceisiadau drwy ein porthol ar-lein yn unig. Nid ydym yn derbyn CV, ond os byddwch am inni ystyried cymhwysiad rhesymol i sicrhau y gallwch wneud cais ar yr un sail â phobl eraill, rhowch wybod inni mewn da bryd.

## Wrth lenwi'ch cais

Cofiwch ymgyfarwyddo â'r Disgrifiad Swydd a'r Manylion Person, er mwyn ichi ddeall y swyddogaeth a beth yw'r cymwysterau, y sgiliau a'r priodoleddau hanfodol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae eich astudiaethau a/neu eich profiad gwaith blaenorol neu eich diddordebau allanol yn eich gwneud yn y addas ar gyfer y swydd hon.

Sylwch – defnyddir y ffurflen gais i ddidoli'r ymgeiswyr i gyd. Felly, cofiwch lenwi pobl adran yn y ffurflen gais yn enwedig i gadarnhau eich bod yn rhoi manylion am yr holl gymwysterau academaidd hanfodol sy'n angenrheidiol ar gyfer y swydd hon. Gall methu â dangos bod gennych y gofynion academaidd lleiaf ar gyfer y swydd olygu na chewch eich cynnwys yn y broses.

**Rydym yn gweithredu proses ddethol pedwar cam. Dim ond un cais fesul cylch recriwtio a ganiateir.**

# Y Broses o Ddewis

## Cais

Drwy ddefnyddio’r ffurflen gais i wneud cais, rydym yn edrych am dystiolaeth:

- fod eich cymwysterau presennol yn bodloni’r safon isaf; a
- bod eich astudiaethau cyfredol ac yn y gorffennol neu eich profiad blaenorol yn dangos eich bod yn addas i wneud gwaith archwilio.

Yn eich datganiad personol rydym yn edrych am dystiolaeth o'r canlynol:

- Wedi ymrwymo i weithio yn y sector cyhoeddus yng Nghymru
- Bod yn naturiol chwilfrydig, yn hyderus wrth herio ac wrth gael eich herio ond mewn modd proffesiynol
- Gallu dangos sylw rhagorol i fanylion tra'n gallu gweld y darlun ehangach
- Gallu dangos sgiliau cyfathrebu rhagorol, ar lafar ac yn ysgrifenedig
- Gallu dangos sgiliau holi a gwrando da
- Gallu dangos gwydnwch i gydbwyso gofynion gweithio ochr yn ochr â hyfforddiant proffesiynol
- Gallu dangos sgiliau rhyngbersonol da gydag ethos gweithio mewn tîm; a
- Gallu dangos cymhelliant ac ymrwymiad i fod yn gyfrifydd.

**O gofio sefyllfa’r pandemig parhaus a phosibilrwydd bod cyfyngiadau’n parhau, mae Archwilio Cymru’n cadw’r hawl i ddiwygio’r broses recriwtio i sicrhau iechyd a diogelwch ein staff ac ymgeiswyr.**

**Dyddiad cau i wneud cais 30 Mehefin 2022**

**Cam 1: cais ar-lein**

Ar y cychwyn byddwn yn adolygu eich cais i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â’r gofynion academaidd.

Os ydych yn bodloni'r gofynion academaidd, byddwn yn asesu eich datganiad personol.

Rydym am i ymgeiswyr i ddweud ychydig wrthym amdanynt eu hunain a'r sgiliau a'r profiadau sydd ganddynt a sut y bydd y rheini'n eu helpu yn y swydd dan hyfforddiant. Rydym am weld tystiolaeth o'ch ymrwymiad i'r sector cyhoeddus ac i ennill cyflog wrth ddysgu fel cyfrifydd dan hyfforddiant.

Os ydych yn defnyddio enghreifftiau, gallant fod o'ch amser yn y brifysgol/ysgol, profiad gwaith (ond nid yn gyfyngedig i hynny) neu unrhyw weithgarwch allgyrsiol rydych wedi cymryd rhan ynddo.

Mae pobl sy'n frwd dros waith Archwilio Cymru a'r ffordd maen nhw'n teimlo y gallant gyfrannu ato bob amser yn gwneud argraff arnom, felly byddem yn eich annog i wneud gwaith ymchwil a meddwl sut rydych yn eich gweld eich hun yn gweithio gyda ni.

Ar ôl ei gwblhau, caiff eich datganiad personol ei farcio gan ein sgriniwyr hyfforddedig. Os byddwch yn cyrraedd y marc isaf sy'n ofynnol, cewch eich symud ymlaen i Gam 2.

**Awgrym:** Mae'r datganiad personol yn caniatáu i chi ysgrifennu hyd at 1000 o eiriau. Er nad ydym yn disgwyl i chi o reidrwydd ddefnyddio'r holl lwfans geiriau, mae'r datganiadau hynny sy'n arbennig o fyr yn annhebygol o gyfleu'r holl wybodaeth rydym yn ei ddisgwyl, felly ystyriwch hynny'n ofalus. Y ffurflen gais yw eich cyfle i werthu eich hun a gosod eich hun yn unigryw i bawb arall.

Ar hyn o bryd byddwn hefyd yn eich gwahodd i gwblhau profion seicometrig ar-lein.

**Awgrym:** Awgrymwn ichi roi cynnig o leiaf unwaith ar bob prawf yn gyntaf cyn cwblhau'r profion. Bydd hyn yn rhoi teimlad ichi o'r mathau o gwestiynau a ofynnir a faint o amser sydd angen i'w hateb. Mae'n ffordd wych i baratoi, i'ch helpu i ymlacio a bod ac i fod ar eich gorau.

**Cam 2: canolfan asesu**

Bydd hyn yn golygu nifer o ymarferiadau unigol ac mewn grŵp lle cewch eich asesu yn ôl y disgrifiad swydd/manyleb person a'r gwerthoedd a'r ymddygiadau.

Caiff rhagor o fanylion am y ganolfan asesu eu darparu os gwahoddir chi i fod yn bresennol.

Os byddwch yn llwyddiannus yn y ganolfan asesu, cewch eich gwahodd i gam 3 yn y broses asesu.

**Cam 3: cyfweliad a chyflwyniad**

Cyfweliad gan banel fydd y cyfweliad terfynol a fydd hefyd yn gyfle gwych ichi ofyn unrhyw gwestiynau i ni am ein sefydliad a'r rhaglen hyfforddi.

**Cam 4: cynnig**

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus wedi gwneud yn dda ym mhob agwedd ar y broses asesu.

Os byddwch yn llwyddiannus, byddwn yn rhoi cynnig i chi yn amodol ar nifer o archwiliadau cyn-cyflogi, gan gynnwys diogelwch a dilysu eich graddau academaidd ar eich ffurflen gais.

**Darperir adborth dim os cewch eich galw i'r ganolfan asesu.**

## Gwybodaeth bellach

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am ein Rhaglen Graddedigion dan Hyfforddiant, y broses ddethol neu unrhyw ofynion penodol, byddwch cystal â chysylltu â Morgan Vaughan ar 02920 320519 neu e-bost recriwtio.hyfforddai@archwilio.cymru

Cysylltwch â recriwtio@archwilio.cymru os oes unrhyw beth yn y pecyn hwn yn aneglur neu os hoffech inni wneud cymwysiadau rhesymol ar eich cyfer.

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Website: www.archwilio.cymru/cy

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.